# Taflen ffeithiau cap ar fudd-daliadau

Adran Gwaith a Phensiynau

O fis Ebrill 2013, cyflwynwyd cap ar gyfanswm y budd-dal y gall bobl o oedran gweithio ei gael. Golyga hyn na fydd cartrefi sydd ar fudd-daliadau allan o waith bellach yn cael mwy mewn budd-dal na'r cyflog wythnosol cyfartalog, ar ôl Treth ac Yswiriant Gwladol.

**Cefndir**

Cyflwynwyd y cap o fis Ebrill 2013 mewn 4 bwrdeistref Llundain, sef Bromley, Croydon, Enfield a Haringey, ac yn gymwys i incwm cyfunol y prif fudd-daliadau allan o waith, yn ogystal â Budd-dal Tai, Budd-dal Plant a Chredyd Treth Plant. Cyflwynir yn genedlaethol rhwng 15 Gorffennaf a diwedd mis Medi 2013.

Caiff y cap ei osod ar:

- £500 yr wythnos ar gyfer cyplau a rhieni unigol
- £350 yr wythnos ar gyfer cartrefi oedolion sengl heb blant

Os bydd cyfanswm eich budd-dal yn fwy na lefel y cap, bydd eich Budd-dal Tai yn gostwng. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw cyfanswm eich budd-dal yn fwy na lefel y cap. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio arian o'ch budd-daliadau eraill i dalu tuag at y rhent ar gyfer eich cartref.

**Eithriadau**

Ni fydd y cap yn berthnasol os bydd rhywun yn eich cartref (chi, eich partner neu unrhyw blant rydych yn gyfrifol amdanynt wrth gyfrifo eich Budd-dal Tai) yn:

Gymwys i gael:

- Credyd Treth Gwaith

Yn cael:

- Lwfans Byw i'r Anabl
- Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Gweini
- Yr elfen gymorth o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol (a phensiynau a thaliadau anabledd rhyfel o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog)
- Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw neu Bensiwn Rhyfel Gŵr Gweddw

Os ydych chi neu'ch partner wedi bod yn gweithio 50 wythnos yn ystod y 52 wythnos flaenorol cyn hawlio budd-dal, gallech gael eich eithrio rhag y cap am gyfnod gras o hyd at 39 wythnos.

Nodwch ni fyddai unrhyw blant sy'n oedolion sy'n byw yn eich cartref ac yn cael budd-dal drwy eu hawl eu hun, fel arfer yn cyfrif fel rhan o'ch cartref at ddibenion y cap ar fudd-daliadau.

**Budd-daliadau sy'n cyfrif tuag at y cap?**

- Budd-dal Analluogrwydd
- Budd-dal Plant
- Budd-dal Tai, p'un a delir yn uniongyrchol i chi neu'ch landlord (ond nid yn cynnwys Budd-dal Tai a delir ar gyfer Llety â Chymorth wedi'i Eithrio*)
- Credyd Treth Plant
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (oni chaiff ei dalu gyda'r elfen gymorth)
- Lwfans Gofalwr
- Lwfans Gwarcheidwad
- Lwfans Mamolaeth
- Lwfans Mam Weddw
- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Pensiwn Gwraig Weddw, yn cynnwys yr elfen sy'n Gysylltiedig ag Oedran

*Mae Llety â Chymorth wedi'i Eithrio naill ai'n lleoliad adleoli neu'n llety a ddarparwyd gan gyngor sir, cymdeithas tai, elusen gofrestredig neu sefydliad gwirfoddol sy'n darparu gofal, cymorth a goruchwyliaeth i chi. Gall y llety hwn cynnwys tai lle ceir cefnogaeth fel cartrefi grŵp, hostelau, llochesau, cartrefi gwarchodol, llety lle ceir cefnogaeth a thai sydd wedi cael eu haddasu ar gyfer pobl anabl.

### Sut y gallaf gael gwybod mwy am hyn?

Mae rhagor o wybodaeth a chyfrifiannell ar-lein ar gael yn **www.gov.uk/benefit-cap**. Gallai'r cyfrifiannell rhoi amcangyfrif i chi ar faint yn is y bydd eich budd-dal os byddwch yn cael mwy na lefelau'r cap.

Mae llinell gymorth hefyd ar gael i chi ei ffonio. Y rhif **0845 605 7066** neu ffôn testun 0845 608 8551 ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8am a 6pm.

### Beth allwch chi ei wneud i sicrhau na fydd y cap ar fudd-daliadau yn berthnasol i chi?

Ni chaiff eich budd-dal ei gapio os bydd rhywun yn eich cartref (chi, eich partner neu unrhyw blant rydych yn gyfrifol amdanynt wrth gyfrifo eich Budd-dal Tai) yn:

- Dod o hyd i waith a bod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith;
- Cael un o'r budd-daliadau sy'n eithrio pobl rhag y cap.

Gallech hefyd symud i lety rhatach neu drafod gostyngiad yn eich rhent i un sy'n fwy fforddiadwy.

Gallai hyn olygu na fyddai'r cap yn berthnasol i chi neu y gall y swm y mae'n rhaid i chi ei dalu o'ch budd-daliadau eraill i wneud iawn am y diffyg yn eich rhent fod yn llai.

### Help i ddod o hyd i waith

Bydd dod o hyd i waith a bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith yn golygu na fydd y rheolau newydd hyn yn berthnasol i chi.

Os nad ydych eisoes yn gweld ymgynghorydd y Ganolfan Byd Gwaith, darparwr Rhaglen Waith neu ddarparwr Dewis Gwaith, gallwch gael cymorth gan y Ganolfan Byd Gwaith i'ch helpu i feithrin y sgiliau y gallai fod eu hangen arnoch i ddod o hyd i swydd. I drefnu hyn bydd angen i chi ffonio'r Ganolfan Byd Gwaith ar **0845 604 4248.**

**Cost Galwadau**

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 5c y funud gyda thâl o 15c am wneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

**Ffonau testun**

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth leol un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.